## Gweithgaredd Dysgu

Mae'r adnodd hwn yn darparu gweithgareddau dysgu ar gyfer eich myfyrwyr drwy ddefnyddio Casgliad y Werin Cymru. Mae'n bosibl ei ddefnyddio hefyd yn dempled i greu eich gweithgareddau eich hun drwy ddefnyddio gwefan Casgliad y Werin Cymru.

**Cam Cynnydd** 3

**Pwnc** Defnyddio Archifau i Ymchwilio i Hanes Lleol

**Teitl** **Ar Garreg Eich Drws – Mapiau**
*Defnyddio archifau i ymchwilio i hanes lleol*

**Awdur** **Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru a'r archifdai lleol canlynol: Archifau Gwent, Archifau Sir Penfro, Archifau Ynys Môn, Gwasanaeth Archifau ac Astudiaethau Lleol Wrecsam.**

## Defnyddio Archifau i Ymchwilio i Hanes Lleol – Mapiau

Mae'r adnodd hwn yn edrych ar sut y gallwch ymchwilio i hanes eich ardal drwy ddefnyddio mapiau Arolwg Ordnans a mapiau'r degwm fel math o ffynhonnell sydd ar gael mewn archifdai neu swyddfeydd cofnodion lleol a chenedlaethol yng Nghymru. Mae'n rhan o gyfres sy'n ffurfio'r blociau adeiladu sylfaenol er mwyn cael gwybod am hanes lleol.

Bwriedir i'r adnodd fod yn ganllaw i athrawon, i'w helpu i ddefnyddio prif ffynonellau yn yr ystafell ddosbarth. Gall yr adnodd helpu athrawon hefyd i weithio gyda'u harchifdy lleol i ddod o hyd i ffynonellau tebyg ar gyfer eu hardal eu hunain. Ei nod yw cyflwyno athrawon a myfyrwyr i'r mathau o ffynonellau archifol sy'n cael eu defnyddio ar gyfer hanes lleol ac i ymgyfarwyddo â ffurf, golwg a chynnwys y ffynonellau.

# Ar Garreg Eich Drws – Mapiau – Amcanion Dysgu

**Bydd y dysgwyr yn deall:**

- Rôl yr archifdai o ran darparu ffynonellau hanesyddol pwysig.
- Rôl defnyddio mapiau'n fath o ffynhonnell hanesyddol.
- Pa fath o fywyd oedd gan bobl ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif yn eu hardal leol o'i gymharu â rhannau eraill o Gymru.

**Bydd y dysgwyr yn gallu:**

### Pwnc yn y Cwricwlwm – Hanes

- Defnyddio ystod o ffynonellau, gan gynnwys TGCh, i chwilio am wybodaeth.
- Gofyn ac ateb cwestiynau perthnasol am y gorffennol.
- Adnabod gwahaniaethau rhwng ffyrdd o fyw mewn gwahanol gyfnodau.
- Nodi'r gwahanol ffyrdd o gynrychioli a dehongli'r gorffennol.
- Cynllunio'r dull ymchwilio i'w ddefnyddio, gan awgrymu ffordd o ganfod gwybodaeth berthnasol.
- Dewis, cofnodi a threfnu gwybodaeth hanesyddol.
- Cyfleu syniadau, safbwyntiau a chasgliadau yn fwyfwy annibynnol mewn amrywiaeth o ffyrdd.

### Fframwaith Llythrennedd

- Datblygu dealltwriaeth o wybodaeth anghyfarwydd.
- Ymchwilio er mwyn datblygu dealltwriaeth lawn.
- Trefnu a dadansoddi gwybodaeth berthnasol.
- Defnyddio termau a geirfa dechnegol sy'n briodol ar gyfer y cynnwys pwnc-benodol.

### Pwnc yn y Cwricwlwm – Daearyddiaeth

- Adnabod beth sy'n debyg ac yn wahanol er mwyn disgrifio, cymharu a chyferbynnu lleoedd ac amgylcheddau.
- Disgrifio achosion a chanlyniadau newid mewn lleoedd ac yn yr amgylchedd, o'r gorffennol i'r presennol.
- Adnabod a disgrifio nodweddion dynol.
- Adnabod a disgrifio patrymau gofodol lleoedd a'r cysylltiad rhyngddynt.
- Defnyddio mapiau, delweddau a TGCh i ganfod a chyflwyno gwybodaeth leoliadol.
- Cyfleu'r casgliadau mewn ffyrdd amrywiol.
- Arsylwi a gofyn cwestiynau am le.

# Ar Garreg Eich Drws – Mapiau – Sgiliau

### Meddwl

- Gofyn cwestiynau.
- Ysgogi gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth flaenorol.
- Cywain gwybodaeth.
- Pwyso a mesur tystiolaeth, gwybodaeth a syniadau.

### Cyfathrebu

- Datblygu a chyfleu gwybodaeth a syniadau.
- Trefnu syniadau a gwybodaeth.
- Cyfleu gwybodaeth.
- Ysgrifennu'n gywir.

### TGCh

- Canfod a datblygu gwybodaeth a syniadau.
- Creu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau.

# Ar Garreg Eich Drws – Testun Rhagarweiniol

## Cyflwyniad

Mae'r adnodd hwn yn rhan o gyfres o wyth. Mae pob adnodd yn y gyfres yn cyflwyno gwahanol fath o ffynhonnell hanesyddol. Mae'r mathau o ffynonellau hanesyddol sy'n cael eu cyflwyno yn yr adnodd hwn yn nodweddiadol o'r adnoddau y byddech yn edrych arnyn nhw wrth wneud project hanes lleol ac maen nhw i gyd ar gael yn eich archifdy lleol.

Dyma'r gwahanol fathau o ffynonellau sy'n cael eu cyflwyno:

Y Cyfrifiad
**Mapiau'r Degwm a Mapiau Arolwg Ordnans**
Llyfrau Log Ysgolion
Ffotograffau
Cofrestrau Plwyf - bedyddiadau a marwolaethau
Cyfeiriaduron Masnach
Catalogau Gwerthu
Papurau newydd

Mae'r ffynonellau hanesyddol enghreifftiol ym mhob adnodd yn dod o bedair ardal yng Nghymru: Caergybi, Blaenafon, Saundersfoot a Wrecsam. Maen nhw'n deillio o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif. Gan ddefnyddio'r rhain yn enghreifftiau, mae'n bosibl ymchwilio, creu cysylltiadau a chymariaethau, gofyn ac ateb cwestiynau, darganfod tirweddau a phobl, a'r cysylltiadau sydd rhyngddyn nhw.

Ceir ffilm fer sy'n cyflwyno archifau ac ar gyfer pob math o ffynhonnell ceir ffilm fer arall sy'n esbonio'r math o ffynhonnell a sut y gallwn ei defnyddio i gael gwybod rhagor am hanes lleol. Mae trawsgrifiad o'r ffilmiau a'r mân-luniau yn y **nodiadau i athrawon.** Mae'r delweddau maint llawn ar gael drwy ddilyn y dolenni i wefan Casgliad y Werin Cymru.

Ar gyfer pob adnodd yn y gyfres mae sawl **tasg ar-lein** ar gyfer y disgyblion sy'n defnyddio'r ffynonellau o'r pedair ardal. Mae'n bosibl gweld y ffynonellau hyn ar-lein ar wefan Casgliad y Werin Cymru drwy ddilyn y dolenni sydd ar daflenni tasgau'r disgyblion. Mae **gweithgareddau ychwanegol** hefyd sy'n awgrymu sut y gallai'r disgyblion ddefnyddio ffynonellau eu harchifdy lleol i ymchwilio i'r hanes lleol sydd ar garreg eu drws. Mae'r gweithgareddau ychwanegol hyn yn galluogi disgyblion i gymharu a gwrthgyferbynnu eu hardal hwy ag ardaloedd eraill yng Nghymru. Ceir manylion archifdai lleol a chenedlaethol Cymru ar ddiwedd y nodiadau i athrawon.

**Gwylio'r ffilm – yr Archif a'r Archifdy**

# Ar Garreg Eich Drws – Ffilm Ragarweiniol – Mapiau

Rhagarweiniad byr ar ffilm sydd yma lle mae archifydd yn esbonio mapiau fel math o ffynhonnell a sut y gallwn eu defnyddio i gael gwybod rhagor am hanes lleol.

**Gwyliwch y ffilm ragarweiniol – Defnyddio Mapiau** (dolen i'r fideo ar wefan Casgliad y Werin Cymru)

# Edrych ar Archifau – *Mapiau*

## Defnyddio Mapiau

Mae'r adnodd hwn yn edrych ar sut y gallwch ymchwilio i hanes eich ardal drwy ddefnyddio mapiau Arolwg Ordnans a mapiau'r degwm.

Ceir pedair enghraifft o fapiau Arolwg Ordnans a mapiau'r degwm i'w defnyddio gyda'r tasgau i'r disgyblion. Mae pob un yn dod o wahanol ran o Gymru.

Mapiau'r degwm:
Tref Caergybi, 1841
Plwyf Llanofer, Blaenafon, 1844
Saundersfoot, 1841
Map Degwm y Waun (gydag atodlen a thrawsgrifiad, sydd wedi'u cynnwys yn y nodiadau i athrawon), 1837

Mapiau Arolwg Ordnans:
Argraffiad Cyntaf Caergybi a gyhoeddwyd ym 1891
Argraffiad Cyntaf Blaenafon a gyhoeddwyd ym 1891
Ail Argraffiad Saundersfoot a gyhoeddwyd ym 1907
Wrecsam, Map Arolwg Ordnans 25", 1900

**Mapiau'r Degwm**
Cafodd mapiau'r degwm eu creu ar ôl 1836 fel rhan o arolwg gan y llywodraeth i benderfynu faint oedd yn ddyledus gan bob aelwyd mewn plwyf i'r eglwys leol. Roedden nhw'n cael eu paratoi ar gyfer y rhan fwyaf o'r plwyfi yng Nghymru. O'r dyddiau cynnar, byddai pawb a oedd yn byw mewn plwyf yn talu'r degwm i gynnal eglwys a chlerigwyr y plwyf. Yn wreiddiol, taliadau 'mewn nwyddau' oedd y rhain, ond o 1836 ymlaen, penderfynwyd y byddai'r degwm yn cael ei dalu ar ffurf arian parod. Mae'r rhifau ar y mapiau'n cyfeirio at atodlen gysylltiedig a oedd yn rhestru perchnogion y tir, y preswylwyr a manylion eraill.

**Mapiau Arolwg Ordnans**
Cwblhawyd argraffiad cyntaf mapiau Arolwg Ordnans Ynysoedd Prydain yn y 1890au. Mae'r mapiau yn seiliedig ar arolygon a gynhaliwyd yn y 1830au a'r 1840au, ond mae manylion diweddarach, er enghraifft y rheilffyrdd, wedi'u hychwanegu. Mae gofyn cael deunaw o ddalenni er mwyn gweld Cymru i gyd ac mae oddeutu 25 modfedd neu 63 cm i'r filltir. Dechreuwyd yr ail argraffiad (neu'r 'diwygiad cyntaf') ym 1891 a'i gwblhau ychydig cyn y Rhyfel Byd Cyntaf.

Yn ystod y tasgau, defnyddiwch y dolenni i'r casgliadau sydd ar wefan Casgliad y Werin Cymru i edrych ar y mapiau ar-lein. Drwy gymharu'r mapiau, mae'n bosibl cael gwybodaeth ddefnyddiol am y pethau a oedd yn debyg a'r pethau a oedd yn wahanol mewn gwahanol rannau o Gymru ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif.

# Ar Garreg Eich Drws – Mapiau / Tasg 1

**Beth mae mapiau Arolwg Ordnans a mapiau'r degwm o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif yn ei ddysgu i ni am leoedd ac aneddiadau?**

Astudiwch y mapiau o'r casgliad isod i'ch helpu i ateb y cwestiwn hwn.

**Dyma ychydig o gwestiynau i'ch helpu gyda'ch tasg.**

Allwch chi adnabod unrhyw rai o'r lleoedd a'r nodweddion ar y mapiau?
Pa un o'r pedwar anheddiad oedd y lleiaf/mwyaf yn y 1840au?
Pa un o'r pedwar anheddiad oedd y lleiaf/mwyaf yn y 1890/1900au.
Pa anheddiad a dyfodd fwyaf rhwng y 1840au a'r 1890/1900au? Pa anheddiad a dyfodd leiaf? Pam tybed?

## Casgliad ar gyfer Tasg 1

Dolen i'r casgliad ar wefan Casgliad y Werin Cymru

# Ar Garreg Eich Drws – Mapiau / Tasg 2

**Beth mae'r mapiau Arolwg Ordnans a mapiau'r degwm o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif yn ei ddysgu i ni am ddiwydiant?**

Astudiwch y mapiau o'r casgliad isod i'ch helpu i ateb y cwestiwn hwn.

**Dyma ambell awgrym i'ch helpu gyda'ch tasg.**

Nodwch y prif ddiwydiannau neu'r cyfleoedd ar gyfer gwaith ym mhob lle ar sail yr hyn rydych yn ei weld yn y mapiau Arolwg Ordnans.
Sut mae hyn yn cymharu â'r swyddi sy'n cael eu rhestru yn ffurflenni cyfrifiad 1891?
A oes unrhyw ddiwydiant sy'n dal yno heddiw? Defnyddiwch fapiau cyfoes i'ch helpu gyda hyn.

## Casgliad ar gyfer Tasg 2

Dolen i'r casgliad ar wefan Casgliad y Werin Cymru

# Ar Garreg Eich Drws – Mapiau / Tasg 3

**Beth mae mapiau Arolwg Ordnans a mapiau'r degwm o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif yn ei ddysgu i ni am gludiant a theithio?**

Astudiwch y mapiau o'r casgliad isod.

**Dyma ychydig o gwestiynau i'ch helpu gyda'ch tasg.**

Pa dystiolaeth sydd ynglŷn â sut y gallai pobl deithio i Gaergybi yn y 1840au ac yn y 1890au?
Beth am i Saundersfoot, Wrecsam a Blaenafon?
Allwch chi adnabod unrhyw rai o'r ffyrdd, y rheilffyrdd neu'r pontydd sy'n dal yno heddiw?
Defnyddiwch fapiau cyfoes i'ch helpu gyda hyn.

## Casgliad ar gyfer Tasg 3

Dolen i'r casgliad ar wefan Casgliad y Werin Cymru

***Da iawn chi. Rydych wedi gorffen eich tasgau ac rydych wedi casglu gwybodaeth drwy ddefnyddio mapiau.***

## Dyma'ch cyfle chi i gael gwybod rhagor.

Gallwch ymweld â'ch swyddfa cofnodion neu'ch archifdy lleol neu holi yno am fapiau Arolwg Ordnans a mapiau'r degwm ar gyfer eich ardal chi.
Cerddwch drwy eich ardal leol, eich pentref, eich stryd fawr ac ati, i weld a allwch weld unrhyw adeiladau, ffyrdd neu bontydd sydd ar y mapiau ac sy'n dal yno o hyd. Gallech ddatblygu arddangosfa yn yr ystafell ddosbarth o fapiau lleol hanesyddol drwy ddefnyddio lluniau cyfoes o adeiladau neu nodweddion sy'n amlwg ar y mapiau.

## Pa gwestiynau newydd fyddech chi'n hoffi cael atebion iddyn nhw?

**Gallwch wneud rhagor o ymchwil ar lein, yn eich archifdy, eich swyddfa cofnodion a'ch amgueddfa leol.**

**Gallwch ddod o hyd i'ch archifdy neu'ch swyddfa cofnodion leol yn** www.archiveswales.org.uk/

**Gallwch ddod o hyd i'ch amgueddfa leol yn** http://www.culture24.org.uk/places+to+go/wales **(Saesneg yn unig)**

**Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn** www.llgc.org.uk/cy/

**Casgliad y Werin Cymru yn** www.casgliadywerincymru.co.uk

**Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru yn** www.cbhc.gov.uk

**Coflein yn** www.coflein.gov.uk

# Gweithgareddau Ychwanegol – Sut mae Lleoedd yn Datblygu ?

## Gan ddefnyddio mapiau o'ch archifdy lleol, cymharwch sut mae lleoedd ac aneddiadau wedi datblygu yn eich ardal leol chi â'r datblygiadau mewn rhannau eraill o Gymru yn ystod diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif.

**GWEITHGAREDDAU DYSGU**

### *Trafodaeth*

Edrychwch ar fapiau Arolwg Ordnans a mapiau'r degwm o'ch ardal leol o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif. Beth mae'r rhain yn ei ddweud wrthym am ein hardal bryd hynny a sut mae hynny'n cymharu â'r ardaloedd eraill?

## *Edrych ar fapiau o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif – adnabod gwybodaeth ar fapiau Arolwg Ordnans a mapiau'r degwm.*

Ar ôl astudio'r mapiau ar gyfer eich ardal, nodwch y mathau o wybodaeth y mae mapiau Arolwg Ordnans a mapiau'r degwm yn eu cynnwys, a gwnewch allwedd ddarluniadol ar gyfer y gwahanol fathau o fapiau. Sut maen nhw'n cymharu â'i gilydd? Sut maen nhw'n wahanol i allwedd mapiau Arolwg Ordnans cyfoes?


**Dyma rai o'r pethau y gallech eu trafod:**

- **Edrychwch ar yr adeiladau a diwydiant. Sut mae'r rhain yn cael eu darlunio?**
- **Sut mae nodweddion naturiol (er enghraifft fforestydd, coedwigoedd, traethau, clogwyni, lefelau, caeau ac ati) yn cael eu dangos?**
- **Sut mae llwybrau cludiant (rheilffyrdd, ffyrdd a chamlesi, er enghraifft) yn cael eu dangos?**

### *Syniadau ar gyfer rhagor o weithgareddau:*

- Gan ddefnyddio mapiau Arolwg Ordnans a mapiau'r degwm **o** Gasgliad 1 a'ch archifdy lleol, cymharwch y pedwar lle gwahanol yng Nghymru â'ch ardal chi eich hun. Gwnewch restr o sut y gwnaeth pob un o'r rhain ddatblygu rhwng y 1840au a'r 1890au.
- Edrychwch ar fapiau Caergybi yng Nghasgliad 1. Pa mor bell mae Caergybi wedi ymestyn rhwng 1841 a 1891? Beth wnaeth achosi'r twf hwn tybed? Allwch chi weld unrhyw rai o'r un enwau lleoedd ar y ddau fap, er enghraifft, Black Bridge?







# Gweithgareddau Ychwanegol – Datblygiadau Diwydiannol

**Gan ddefnyddio mapiau o'ch archifdy lleol, cymharwch sut mae diwydiant wedi datblygu yn eich ardal leol chi â datblygiadau mewn rhannau eraill o Gymru yn ystod diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif.**

## GWEITHGAREDDAU DYSGU

### *Trafodaeth*

Edrychwch ar fapiau Arolwg Ordnans a mapiau'r degwm o'ch ardal leol o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif o'ch archifdy lleol. A oes unrhyw dystiolaeth o ddiwydiant ar y mapiau? Sut mae hyn yn cymharu â'r ardaloedd eraill? Ydy'r diwydiant yn debyg neu a oes gwahanol fathau o ddiwydiant? Pam tybed?

## *Edrych ar fapiau o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif – diwydiant dros gyfnod*

Ar ôl astudio mapiau o'r archifdy lleol, bydd pob disgybl neu grŵp o ddisgyblion yn dewis math o ddiwydiant ac yn ymchwilio i hanes y diwydiant hwnnw yn eu hardal, gan ddefnyddio'r mapiau'n fan cychwyn ar gyfer eu hymchwiliad. A oes unrhyw dystiolaeth o'r diwydiant hwn mewn unrhyw ffotograffau, yn ffurflenni'r cyfrifiad mewn cyfeiriaduron masnach neu gatalogau gwerthu o'r ardal leol yn eich archifdy lleol? Ar wefan Casgliad y Werin Cymru, mae nodwedd mapio a fydd yn help i'r disgyblion gyda'u hymchwil.


**Dyma'r math o wybodaeth y gallent ei chynnwys yn eu hadroddiad:**

- **Y math o ddiwydiant.**
- **Ar ba fap mae'r diwydiant yn ymddangos gyntaf?**
- **Sut mae'r diwydiant yn newid o un map i'r llall?**
- **Ydy'r diwydiant yn dal yno heddiw?**

### *Syniadau ar gyfer rhagor o weithgareddau:*

- Edrychwch ar y mapiau yng Nghasgliad 2. Faint o Flaenafon sy'n cael ei ddangos yn y mapiau? Dim ond un plwyf sy'n cael ei ddangos ar fap degwm Llanofer, ac mae'r map yn dod i ben ar y chwith lle mae ffin y plwyf yn gorffen. Ydy'r plwyf hwn yn cael ei ddangos ar fap Arolwg Ordnans Blaenafon yn y casgliad? Un cliw yw'r llinell doredig ar y dde ar y map Arolwg Ordnans sy'n dangos y ffin rhwng plwyf Llanofer a phlwyf Trefethin. Dylech allu dod o hyd i'r pwll cyflenwi glas ar y map Arolwg Ordnans a'r un dŵr glas ar fap y degwm. Chwiliwch am King Street, Blaenafon ar y map Arolwg Ordnans. Edrychwch ar y rhesi o dai sy'n wynebu King Street ym 1891. Edrychwch i weld a allwch ddod o hyd i'r un rhesi ar fap y degwm ym 1844. Ar beth rydych yn sylwi? Pa nodweddion eraill y gallwch eu gweld ar y ddau fap? Sut mae'r rhan hon o Flaenafon wedi newid rhwng 1844 a 1891?







# Gweithgareddau Ychwanegol – Cludiant a Theithio

**Gan ddefnyddio mapiau o'ch archifdy lleol, cymharwch sut mae cludiant a theithio yn eich ardal leol chi wedi datblygu o'u cymharu â datblygiadau mewn rhannau eraill o Gymru yn ystod diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif.**

## GWEITHGAREDDAU DYSGU

### *Trafodaeth*

Edrychwch ar fapiau Arolwg Ordnans a mapiau'r degwm o'ch ardal leol o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif. Allwch chi weld tystiolaeth o nodweddion cludiant ar y mapiau? Sut mae'r rhain yn wahanol i ardaloedd eraill?

### *Edrych ar fapiau diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif – cludiant a theithio dros gyfnod o amser*

Ar ôl astudio'r mapiau o'r archifdy lleol, bydd pob disgybl neu grŵp o ddisgyblion yn cymharu'r rhwydwaith cludiant ar fapiau diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif â'r rheini sydd ar fapiau cyfoes ac awyrluniau. Mae awyrluniau yn cynnig cyfle ardderchog i gymharu a gwrthgyferbynnu tirweddau'r gorffennol a'r presennol ac mae'n bosibl cael gafael arnyn nhw gan Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru, Coflein ac ar wefan Prydain oddi Fry (Britain from Above). Beth yw'r prif wahaniaethau rhwng y rhwydweithiau cludiant? Sut allwch chi ddangos y gwahaniaethau hyn?


**Dyma'r math o wybodaeth y gallai'r disgyblion ei chynnwys:**

- **Pa nodweddion cludiant sy'n dal yn amlwg heddiw?**
- **Pa nodweddion cludiant nad ydyn nhw i'w gweld rhagor?**
- **A oes unrhyw nodweddion cludiant newydd i'w gweld? Os oes, pa bryd yr adeiladwyd y rhain?**
- **Beth fyddai'r ffordd orau o ddangos y newidiadau hyn?**

### *Syniadau ar gyfer rhagor o weithgareddau:*

- Edrychwch ar y mapiau a ffurflenni'r cyfrifiad yng Nghasgliad Saundersfoot. Chwiliwch am Railway Street, Saundersfoot ar y map Arolwg Ordnans. Allwch chi ddod o hyd i'r tai ar ffurflen gyfrifiad 1891 Saundersfoot? Ydy'r dramffordd i'w gweld ar y map degwm cynharach?
- Faint o newid sydd wedi bod yn yr ardal wledig o gwmpas Saundersfoot rhwng y 1840au a 1907? Ydy'r ffotograffau yng Nghasgliad Saundersfoot yn ein helpu i weld unrhyw newidiadau eraill?







## Mae mapiau Arolwg Ordnans a mapiau'r degwm yn gallu rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i ni am hanes ein hardal leol.

**Dyma drawsgrifiad o'r ffilm sy'n sôn am ddefnyddio mapiau Arolwg Ordnans a mapiau'r degwm.**

Mae'r ddau fap isod yn dangos map degwm (dyddiedig 1844) ac argraffiad cyntaf o fap Arolwg Ordnans (a gyhoeddwyd ym 1881). Cafodd y ddau fap hyn eu creu am resymau gwahanol iawn.




Blaenavon Tithe Map

Dolen i'r ddelwedd



Map Arolwg Ordnans argraffiad cyntaf, 1881.

Dolen i'r ddelwedd

**Beth yw map degwm?**
Bob blwyddyn, roedd yn rhaid i bobl dalu rhan o'u hincwm i gynnal yr eglwys leol a'i gweinidogion. Cyn 1836, byddai'r taliadau hyn yn cael eu gwneud ar ffurf 'nwyddau', a oedd yn golygu bod pawb yn rhoi rhywfaint o'u cnydau, eu gwlân a'u llaeth ac ati. Ym 1836, penderfynodd y llywodraeth godi tâl ariannol yn lle hyn ac fe alwyd y taliad yn 'Rhent y Degwm'. Er mwyn gweld faint o arian a oedd yn ddyledus gan bob aelwyd, bydden nhw'n cynnal arolygon. Rhan o'r arolwg hwn oedd paratoi map degwm. Byddai mapiau'r degwm yn cael eu paratoi ar gyfer y rhan fwyaf o'r plwyfi yng Nghymru. Mae ansawdd yr arolwg a'i raddfa'n gallu amrywio o un plwyf i'r llall. Graddfa'r map hwn yw 3 chadwyn i 1 fodfedd/2.5cm. Mae cadwyn yr un hyd â'r pellter o un wiced i'r llall ar faes criced – tuag 20 metr.

**Beth yw map Arolwg Ordnans?**
Sefydlwyd yr Arolwg Ordnans yn 1791, a'i waith ar y dechrau oedd gwneud mapiau i'r lluoedd arfog. Ers hynny, mae wedi arolygu gwahanol rannau o'r wlad ar wahanol raddfeydd. Mae'r map Arolwg Ordnans hwn o 1881 yn 1:2500 (tua 2 modfedd/63 centimedr i'r filltir). Mae hwn hefyd yn fap sy'n cael ei alw'n fap argraffiad cyntaf. Mae llawer o archifdai a llyfrgelloedd yn cadw mapiau o'r argraffiad hwn ac argraffiadau diweddarach.

Gallwch weld copïau o fapiau'r degwm yn archifdy'r sir, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn Aberystwyth ac yn yr Archifau Cenedlaethol yn Llundain.

Mae gennym ddarn o Fap Degwm Llanofer. Ym 1844, nid plwyf oedd tref Blaenafon yng Ngwent – rhan o blwyf Llanofer oedd hi. Fel sy'n wir am fapiau Arolwg Ordnans, byddai'r rhain yn cael eu trefnu fesul sir, ac wedyn byddai pob sir yn cael ei rhannu'n grid. Yn anffodus, roedd tref Blaenafon yn digwydd bod lle'r oedd pedwar map yn gorgyffwrdd â'i gilydd, felly ar y map hwn, rhan ogledd-ddwyreiniol y dref sydd i'w gweld. Yn yr enghraifft hon, mae gennym o fap 12-9 o Gyfres Sir Fynwy.

**Pa wybodaeth y gallwch ddod o hyd iddi ar fap?**

Ciplun o ardal ar bwynt penodol mewn hanes yw mapiau. Mae'n ddiddorol cymharu'r ddau fap sydd yma. Yn gyntaf, fe welwn pa mor dda oedd yr arolwg. Mae'r map Arolwg Ordnans yn dangos:

- adeiladau mewn coch
- strydoedd ag enwau
- capeli/eglwysi (a'u henwad) – ar hyd King Street mae Eglwys y Bedyddwyr Bethel sydd yno hyd heddiw
- mae ardaloedd ym Mlaenafon yn cael eu henwi, er enghraifft Rifle Green
- mae nodweddion diwydiannol er enghraifft y gwaith haearn, y gwaith brics, a'r chwareli i gyd wedi'u labelu
- mae ffiniau'r plwyfi wedi'u diffinio'n glir gydag enwau ar ymyl y map
- mae'r afonydd wedi'u labelu, er enghraifft Afon Llwyd
- mae'r prif adeiladau, er enghraifft Blaenavon House, wedi'u labelu
- mae strydoedd/coetiroedd, llwybrau troed, ysgolion, ffynhonnau, tafarndai i gyd yn cael eu dangos.

Ar fap Arolwg Ordnans, mae'r gogledd bob tro ar i fyny i gyfeiriad 12 o'r gloch. Nid yw’r un peth yn wir bob tro am fapiau'r degwm. Ar y map degwm hwn, mae'r gogledd yn mynd i gyfeiriad 11 o'r gloch, ac nid oes hanner cymaint o fanylion arno. Mae map y degwm yn dangos y canlynol:

- adeiladau wedi'u marcio'n goch ac weithiau gyda streipiau llwyd
- ffyrdd
- enwau'r plwyfi cyffiniol

Nid oes fawr o ddim byd arall yn cael ei ddangos. Mae'r rhan fwyaf o'r map yn cynnwys lleiniau sydd wedi’u rhifo. Mae'r rhifau hyn yn cyfateb â dogfen arall sy'n cael ei galw'n 'ddosraniad'. Mae honno'n dweud pwy biau pob llain, pwy sy'n byw yno mewn gwirionedd, pa fath o dir sydd yno a maint y tir hwnnw. Er enghraifft, mae Rhif 31 yn eiddo i Iarll y Fenni (a oedd yn byw mewn castell yng Nghaint). Cwmni Blaenafon sy'n defnyddio'r lle ac mae'n cael ei ddisgrifio'n benodol fel 'Ffwrneisi Chwyth.' Mae'n ymestyn dros ardal sydd â'r arwynebedd canlynol: 1 erw, 0 rhwd ac 14 perc. Mae hyn tua'r un maint â chae pêl-droed. (Roedd y Ffwrneisi Chwyth yn rhan o Waith Haearn Blaenafon).

Yn yr enghraifft hon, mae'n eithaf hawdd gweld ymhle rydych chi ar bob map. Er enghraifft, mae nodwedd dŵr, er enghraifft y 'pwll cyflenwi' ar y map Arolwg Ordnans yn hawdd ei gweld ar fap y degwm. Ond nid yw pethau mor hawdd â hyn bob tro, yn enwedig os bydd ardal wedi newid yn sylweddol dros gyfnod o amser. Yn wahanol i fapiau Arolwg Ordnans sy'n rhoi'r un manylion ar gyfer pob ardal o'r wlad, mae mapiau'r degwm yn gallu amrywio o blwyf i blwyf. Nid yw pob map degwm yn dangos adeiladau unigol ac weithiau dim ond nifer o sgwariau wedi'u rhifo sydd arnyn nhw.


Mae'n ddiddorol gweld sut mae Blaenafon a'r ardal o'i chwmpas wedi newid rhwng 1844 ac 1881, gyda dyfodiad diwydiant trwm. Yn ystod y cyfnod hwn o 37 mlynedd, mae llawer mwy o dai wedi'u codi wrth i fwy o bobl symud i'r ardal i weithio. Mae rheilffyrdd a thramffyrdd hefyd wedi datblygu yn ystod y cyfnod hwn, er nad yw map y degwm yn dangos tramffyrdd ym 1844.

Mae mapiau'n ddefnyddiol i bob math o bobl. Bydd pobl sy'n ymchwilio i hanes eu tŷ yn defnyddio mapiau i gael gwybod a oedd eu tŷ yn bodoli ar adeg benodol. Mae arolwg y degwm hefyd yn rhoi manylion am y perchennog a'r preswylydd. Mae mapiau'n gallu helpu rhywun i weld sut mae ardal wedi datblygu dros gyfnod. Mae map y degwm 1844 a map Arolwg Ordnans 1881 yn dangos sut mae Blaenafon wedi datblygu fel tref ddiwydiannol. Ond byddai map o Flaenafon heddiw'n dangos mai ychydig iawn o ddiwydiant sydd yno erbyn hyn.

Mae'r wybodaeth hanesyddol hon i gyd wedi dod o un ffynhonnell hanesyddol yn unig: mapiau

Gallwch ofyn i'ch archifdy lleol am fapiau Arolwg Ordnans a mapiau'r degwm ar gyfer eich ardal chi a gweld sut mae'r rheini'n cymharu â'r rhain.

## Atodlen i Fap Degwm y Waun, 1837.




## Trawsgrifiad o'r Atodlen i Fap Degwm y Waun, 1837.

| LANDOWNER | OCCUPIER | NUMBERS REFERRING TO THE PLAN | NAME AND DESCRIPTION OF LANDS AND PREMISES | STATE OF CULTIVATION | QUANTITIES IN STATUTE MEASURE | Amount of Rent Charge apportioned upon the several Lands and Payable to the Vicar |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dungannon Lord | Dungannon Lord | 17 | Rough side of River opposite the Forge | | A C F<br>1 “ 12 | £ s d |
| Viscount | Viscount | 31 | Strip of waste along the river | | “ “ 28 | |
| Arthur Hill Trevor | | 39 | Rough above pont-y-blew Bridge | | 2 “ 33 | |
| continued | | 115 | Brynkinault Lodge & Garden | | “ 1 10 | |
| | | 116 | **Brynkinault House** {outbuildings and pleasure grounds } | | 15 “ 6 | |
| | | 118 | Wood adjoining Ladys Bridge | | 3 “ 2 | |
| | | 119 | Ornamental River | | 1 “ 3 | |
| | | 120 | Island of wood | | 3 3 23 | |
| | | 122 | Waste adjoining the River in meadows | | “ 3 36 | |
| | | 125 | {Waste and gravel at the bottom of Dobbs Meadow } | | “ 1 3 | |
| | | 127 | Coed-yr-allt | | 23 2 8 | |
| | | 128 | Chirk Lodge & plantation | | 2 1 26 | |
| | | 129 | Occupation Road adjoining | | “ 2 29 | |
| | | 130 | Park Bridge Wood | | 1 3 “ | |
| | | 131 | {The Park | | 117 2 28 | |
| | | | small plantation in ditto | | | |
| | | 132 | {plantation on Chirk green side of pinfold field } | | 1 1 14 | |
| | | 137 | Plantation adjoining the Farm House | | “ 3 19 | |
| | | 138 | Farm Yard & Buildings | | 2 “ 19 | |
| | | 139 | Plantation top pinfold field | | 1 “ 22 | |
| | | 140 | Bailiffs house garden yards & building | | 2 5 | |
| | | 141 | Pasture in plantation | | 1 “ 16 | |
| | | 142 | Plantation in garden field | | 3 1 32 | |
| | | 144 | Brynkinault garden Hothouses and Shrubberies | | 8 1 20 | |
| | | | | | 193 - 36 | |

Dolen i'r delweddau o fap degwm y waun a'r trawsgrifiad o'r atodlen ar wefan Casgliad y Werin Cymru

# Rhagor o Wybodaeth – Archifdai Lleol

## Gallwch ddod o hyd i'ch archifdy lleol isod:

Archifau Gwent enquiries@gwentarchives.gov.uk Ffôn: 01495 353363

Archifau Morgannwg glamro@caerdydd.gov.uk Ffôn: 029 2087 2200

Archifau Prifysgol Abertawe archives@swansea.ac.uk Ffôn: 01792 295021

Archifau Prifysgol Aberystwyth archives@aber.ac.uk Ffôn: 01970 628593

Archifau Prifysgol Bangor archives@bangor.ac.uk Ffôn: 01248 382966

Archifau Prifysgol Cymru, y Drindod Dewi Sant rodericbownlibrary@tsd.ac.uk Ffôn: 01248 38296

Archifau Ynys Môn archifdy@ynysmon.gov.uk Ffôn: 01248 751930

Archifdy Ceredigion archives@ceredigion.gov.uk Ffôn: 01970 633697/633698

Archifdy Cymdeithas Hynafiaethau Castell-nedd westglam.archives@abertawe.gov.uk Ffôn: 01639 620139

Archifdy Gwynedd, Meirionnydd archifau.dolgellau@gwynedd.gov.uk Ffôn: 01341 424 682

Archifdy Gwynedd, Caernarfon archifau.caernarfon@gwynedd.gov.uk Ffôn: 01286 679095

Archifdy Sir Ddinbych archif@sirddinbych.gov.uk Ffôn: 01824 708250

Archifdy Sir Benfro record.office@pembrokeshire.gov.uk Ffôn: 01437 775456

Archifdy Sir y Fflint archives@siryfflint.gov.uk Ffôn: 01244 532364

Gwasanaeth Archifau ac Astudiaethau Lleol Wrecsam archives@wrecsam.gov.uk Ffôn 01978 297480

Gwasanaeth Archifau Conwy archifau.archives@conwy.gov.uk Ffôn 01492 577550

Gwasanaeth Archifau Gorllewin Morgannwg, Abertawe westglam.archives@abertawe.gov.uk Ffôn 01792 636589

Gwasanaeth Archifau Sir Gaerfyrddin archives@sirgar.gov.uk Ffôn: 01267 228232

Prifysgol Caerdydd, Casgliadau Arbennig ac Archifau keelanp@caerdydd.ac.uk Ffôn: 029 2087 5678

Swyddfa Archifau Sir Powys archives@powys.gov.uk Ffôn: 01597 826088

**Gallwch ddod o hyd i ragor o adnoddau ar-lein, yn eich archifdy, eich swyddfa cofnodion a'ch amgueddfa leol.**

**Gallwch ddod o hyd i'ch archifdy neu'ch swyddfa cofnodion leol yn** www.archiveswales.org.uk/

**Gallwch ddod o hyd i'ch amgueddfa leol yn** www.culture24.org.uk/places+to+go/wales **(Saesneg yn unig)**

**Llyfrgell Genedlaethol Cymru:** www.llgc.org.uk/cy/

**Casgliad y Werin Cymru:** www.casgliadywerincymru.co.uk

**Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru:** www.cbhc.gov.uk

**Coflein:** www.coflein.gov.uk

**Prydain oddi Fry:** www.britainfromabove.org.uk/cy